# Pleidleisiau a Thrafodion – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 2 Mai 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4980

# 134

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 7 cwestiwn cyntaf. Cafodd cwestiynau 2 a 3 eu grwpio i'w hateb gyda'i gilydd. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon ar ôl cwestiwn 3.

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

Dechreuodd yr eitem am 14.18

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn.

### Pwynt o Drefn

Cododd Mick Antoniw Bwynt o Drefn o dan Reolau Sefydlog 13.9 (ii) – (iv) a (vi) gan gyfeirio at ddeunydd a ddosbarthwyd yn ddigymell gan Neil Hamilton ar ddesgiau'r Aelodau cyn dechrau'r Cyfarfod Llawn. Dywedodd yr Aelod y byddai'n ddiolchgar pe byddai'r Dirprwy Lywydd yn gwneud dyfarniad ar yr hyn yr ystyriai ef i fod yn ymddygiad tramgwyddus a digywilydd, gyda'r bwriad o ddylanwadu ar ddadl benodol ond heb fod yn berthnasol iddi, a heb fod wedi cael dim awdurdod – hyd y gwyddai ef – gan y Llywydd.

Dywedodd y Dirprwy Lywydd ei bod yn ymwybodol bod Neil Hamilton wedi dosbarthu deunydd wedi'i argraffu ar ddesgiau'r Aelodau yn y Siambr cyn dechrau'r Cyfarfod

Llawn heddiw. Dywedodd nad oedd yn ei hystyried yn briodol i Aelodau ddosbarthu pamffledi i'w gilydd yn y Siambr, boed y deunydd hwnnw'n berthnasol i drafodion y Cynulliad ai peidio. At hynny, dywedodd ei bod yn arbennig o ddigywilydd ac amhriodol i Aelodau gyflawni'r fath weithgarwch yn ddienw, bod gan Aelodau'r fraint o gael eu clywed yn y Siambr hon ac y dylent gyflwyno eu safbwynt mewn dadleuon, ac nad yw'n disgwyl i'r fath ymddygiad gael ei ailadrodd gan unrhyw Aelod.

## 3 Cwestiynau Amserol

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau amserol.

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 14.47

Gwnaeth Jack Sargeant ddatganiad ar gêm Nomads Cei Conna yn erbyn Aberystwyth yn Rownd Derfynol Cwpan JD Cymru yn y Drenewydd ar 6 Mai.

## 5 Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Caffael Cyhoeddus

Dechreuodd yr eitem am 14.49

## 6 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad 01-18 i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22.9

Dechreuodd yr eitem am 14.56

**Yn unol â Rheol Sefydlog 11.15(i), penderfynodd y Pwyllgor Busnes y cynhelir unrhyw bleidlais angenrheidiol ar y cynnig o dan yr eitem hon ar unwaith wedi i'r eitem honno ddod i ben.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

**NDM6710** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad - Adroddiad 01-18 gyda'r adroddiad gan Syr John Griffith Williams QC o dan baragraff 8.6 o'r weithdrefn ar gyfer

ymdrin â chwynion erbyn Aelodau'r Cynulliad – a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 18 Ebrill 2018 yn unol â Rheol Sefydlog 22.9.

2. Yn cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad bod achos o dorri amodau wedi ei ganfod a phenderfynu y dylai'r Aelod, o dan Reol Sefydlog 22.10 (i) a (iii) gael ei geryddu a'i wahardd o drafodion y Cynulliad am y cyfnod o saith niwrnod calendr yn syth ar ôl derbyn y cynnig hwn.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 38 | 1 | 3 | 42 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## Pwynt o drefn

Cododd Rhun ap Iorwerth Bwynt o Drefn o dan Reol Sefydlog 13.9 ynglŷn â chyhuddiadau a wnaed yn y ddadl flaenorol am ymddygiad cyfystyr â hiliaeth yn y Siambr. Er na wnaeth yr Aelod a wnaeth y cyhuddiadau bennu pwy oedd dan sylw, credai Rhun ap Iorwerth ei fod yn pardduo enwau'r holl Aelodau a gofynnodd am ddyfarniad gan y Dirprwy Lywydd. Dywedodd y Dirprwy Lywydd y byddai'n adolygu'r cofnod ac yn ystyried y mater eto yn ddiweddarach.

## 7 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) – Tlodi misglwyf a stigma

Dechreuodd yr eitem am 15.11

**NDM6695**
Jane Hutt (Bro Morgannwg)
Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi gwaith ymchwil gan Plan International UK ar dlodi misglwyf a stigma, sy'n amcangyfrif bod un ym mhob 10 o ferched yn y DU wedi methu â fforddio cynhyrchion misglwyf.

2. Yn croesawu'r camau y mae sefydliadau yng Nghymru yn eu cymryd, gan gynnwys Periods in Poverty, Wings Cymru, The Red Box Project, Ymddiriedolaeth Trussell ac eraill, i fynd i'r afael â mater hwn.

3. Yn nodi'r adroddiad terfynol gan weithgor craffu cyngor Rhondda Cynon Taf a sefydlwyd i ddelio â darparu cynhyrchion misglwyf am ddim mewn ysgolion.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) ystyried ymchwil presennol a newydd ar effaith bosibl tlodi misglwyf a stigma ar ddysgu;

b) ystyried galwadau i wella addysg ar y pwnc a chynnig cynhyrchion misglwyf am ddim mewn sefydliadau addysg; ac

c) nodi ffyrdd i sicrhau bod cynhyrchion misglwyf ar gael i fanciau bwyd Cymru.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8 Dadl Plaid Cymru - Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a datganoli

Dechreuodd yr eitem am 15.48

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM6712** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael).

2. Yn nodi ymhellach fod y cytundeb yn gwneud y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) a basiwyd gan fwyafrif yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn ddiangen.

3. Yn gresynu at y ffaith bod y cytundeb yn rhoi feto dros feysydd deddfwriaeth ddatganoledig i Senedd y DU.

4. Yn gresynu ymhellach at y ffaith bod y cytundeb yn tanseilio Papur Gwyn Llywodraeth Cymru-Plaid Cymru sy'n datgan "na ddylai ymadawiad y DU o'r UE arwain at Lywodraeth y DU yn crafangu pwerau datganoledig yn ôl. Bydd unrhyw ymgais o'r fath yn cael ei gwrthwynebu'n gadarn gennym".

5. Yn galw am bleidlais ystyrlon ar y cytundeb yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 7 | 0 | 39 | 46 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn croesawu:

a) y cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael);

b) y bydd hyn yn amddiffyn marchnad fewnol y DU ac yn sicrhau na fydd rhwystrau newydd yn cael eu creu o fewn y DU ar gyfer defnyddwyr a busnesau;

c) bod hyn yn golygu y bydd y mwyafrif llethol o bwerau'r UE sy'n croestorri â chymwyseddau datganoledig yn mynd yn uniongyrchol i seneddau a chynulliadau datganoledig pan fydd y DU yn gadael yr UE;

d) y ddyletswydd a osodir ar Weinidogion y DU i geisio cytundeb y deddfwrfeydd datganoledig bob tro y maent yn bwriadu gwneud rheoliadau i roi maes polisi o dan y pwerau sydd wedi'u rhewi yng nghymal 11;

e) y terfyn amser a gyflwynwyd ar y cyfyngiad dros dro ar gymhwysedd datganoledig; ac

f) bod hyn yn golygu y bydd Llywodraeth Cymru bellach yn argymell bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n pasio cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Bil (Ymadael) yr UE.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol]*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 32 | 46 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2.** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Dileu popeth ar ôl pwynt 2 a rhoi yn ei le:

3. Yn cytuno bod y canlyniad cadarnhaol hwn i'r negodiadau â Llywodraeth y DU yn diogelu pwerau'r Cynulliad Cenedlaethol dros bolisïau datganoledig yn yr amgylchiadau sy'n newid sydd wedi'u creu gan Brexit ac yn cyfnerthu Confensiwn Sewel, ar sail y sefyllfa ddiofyn bod angen cydsyniad y Cynulliad ar gyfer newidiadau i gymwyseddau'r Cynulliad.

4. Yn croesawu'r ffaith y caiff unrhyw fframweithiau gan y DU gyfan i ddisodli fframweithiau presennol yr UE eu negodi'n rhydd rhwng y llywodraethau ac y byddant yn ddarostyngedig i Gonfensiwn Sewel; a thra bo'r fframweithiau hyn yn cael eu negodi, na fydd unrhyw Lywodraeth, gan gynnwys Llywodraeth y DU mewn perthynas â Lloegr, yn gallu cyflwyno deddfwriaeth sy'n gwyro oddi ar y sefyllfa bresennol.

5. Yn nodi ymhellach y caiff y Cynulliad Cenedlaethol y cyfle am bleidlais ystyrlon ar y cytundeb pan fydd yn ystyried y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sydd i'w gyflwyno gan Lywodraeth Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 38 | 0 | 7 | 45 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y’i diwygiwyd:**

**NDM6712** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael).

2. Yn nodi ymhellach fod y cytundeb yn gwneud y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) a basiwyd gan fwyafrif yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn ddiangen.

3. Yn cytuno bod y canlyniad cadarnhaol hwn i'r negodiadau â Llywodraeth y DU yn diogelu pwerau'r Cynulliad Cenedlaethol dros bolisïau datganoledig yn yr amgylchiadau sy'n newid sydd wedi'u creu gan Brexit ac yn cyfnerthu Confensiwn Sewel, ar sail y sefyllfa ddiofyn bod angen cydsyniad y Cynulliad ar gyfer newidiadau i gymwyseddau'r Cynulliad.

4. Yn croesawu'r ffaith y caiff unrhyw fframweithiau gan y DU gyfan i ddisodli fframweithiau presennol yr UE eu negodi'n rhydd rhwng y llywodraethau ac y byddant yn ddarostyngedig i Gonfensiwn Sewel; a thra bo'r fframweithiau hyn yn cael eu negodi, na fydd unrhyw Lywodraeth, gan gynnwys Llywodraeth y DU mewn perthynas â Lloegr, yn gallu cyflwyno deddfwriaeth sy'n gwyro oddi ar y sefyllfa bresennol.

5. Yn nodi ymhellach y caiff y Cynulliad Cenedlaethol y cyfle am bleidlais ystyrlon ar y cytundeb pan fydd yn ystyried y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sydd i'w gyflwyno gan Lywodraeth Cymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 39 | 0 | 7 | 46 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

## 9 Cyfnod Pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 16.41

## 10 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 16.43

**NDM6711** [Rhianon Passmore (Islwyn)]

Gwlad y gân: datblygu strategaeth addysg cerdd i Gymru

## Crynodeb o Bleidleisiau

Daeth y cyfarfod i ben am 17.01

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 8 Mai 2018